# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (214)

## Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Medi 2010

## Amser: 13.30

**Rhoddwyd teyrngedau i'r Arglwydd Livsey.**

13.44

**Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.  Cafodd cwestiynau 4 a 8 eu grwpio.

………………………

14.38

**Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

………………………

15.02

**Eitem 3: Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol: Lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Ddyletswydd Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus**

………………………

15.48

**Eitem 4: Datganiad Deddfwriaethol: Eitem 1 o Raglen Ddeddfwriaethol 2010-11: Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru)**

………………………

16.22

**Eitem 5: Cynnig i gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)**

**NDM4532 Alun Ffred Jones (Arfon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 23.24:

Yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

Gosodwyd Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 4 Mawrth 2010;

Gosodwyd adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 22 Gorffennaf 2010.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal wedi mabwysiadu datganiad clir eto mai Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol Cymru a bod dilysrwydd a statws cyfartal i'r ddwy.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 31 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

**NDM4532 Alun Ffred Jones (Arfon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 23.24:

Yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

Gosodwyd Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 4 Mawrth 2010;

Gosodwyd adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 22 Gorffennaf 2010.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**NDM4533 Alun Ffred Jones (Arfon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), yn cytuno ar unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 23.80(ii) (a) a (b), sy'n codi o ganlyniad i'r Mesur.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 0 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

..........................

## 17.31
## Eitem 6: Dadl yng Nghyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 23.57 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.49, gwaredwyd y gwelliannau yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Mesur arfaethedig. Ar ôl cwblhau trafodion cyfnod 3, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig fod y Mesur arfaethedig yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 23.58.

**Grwpiwyd y gwelliannau at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodwyd yn ôl y grwpiau a ganlyn:**

1. **Gofalwyr**

2,3

2. **Stratehaeth**

6,10

3. **Ymgynghori**

7,4,5

4. **Awdurdodau perthnasol/cyfrifol**

8

5. **Diffiniad o wybodaeth briodol a chyngor priodol**

9

## 6. Y weithdrefn ar gyfer gwneud Is-ddeddfwriaeth

1

**Cynhaliwyd y pleidleisiau yn y drefn a nodir yn y Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli:**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 29 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gan fod Gwelliant 2 wedi'i wrthod, methodd Gwelliant 3.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 30 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 32 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 28 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 30 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 10**

**Derbyniwyd Gwelliant 1, yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Mesur arfaethedig wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.

..........................

**Eitem 7: Cynnig yng Nghyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 23.58 i gymeradwyo'r Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)**

Cynigiodd y Gweinidog fod y Mesur arfaethedig yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 23.58.

**Cafodd y Mesur ei basio, yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

Mae'r Mesur fel y cafodd ei basio i'w weld drwy ddilyn y linc hwn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus_legislation_meas-cs.htm

………………..

**18.16**
**Cyfnod Pleidleisio**

**Daeth y cyfarfod i ben am 18.18**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher, 22 Medi 2010.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**